Y ddraig oedd yn tyfu a thyfu

Mynnu sylw / Dangos eich hun

Pan ddeffrôdd Elfyn un bore gwelodd ddraig fechan ar waelod ei wely. Rhedodd i lawr y grisiau i ddweud wrth ei fam. “Mam mae yna ddraig yn fy ystafell wely.”

“Twt lol,” meddai’i fam, “does yna ddim ffasiwn beth yn bod â draig.”

Pan glywodd y ddraig eiriau ei fam dechreuodd dyfu a thyfu. Daeth y ddraig i lawr y grisiau a bwyta brecwast pawb. Yna aeth i gysgu i’r ystafell wely. Yn fuan iawn roedd y ddraig wedi tyfu llond yr ystafell.

“Doeddwn i ddim yn gwybod fod dreigiau yn tyfu mor gyflym,” meddai Elfyn.

“Does yna ddim ffasiwn beth â draig yn bod,” oedd ateb ei fam unwaith eto.

Daeth y ddraig allan o’r ystafell wely a dechrau cerdded i lawr y grisiau. Ar ôl mynd i lawr y gris cyntaf aeth yn sownd. Yno bu’r ddraig am weddill y bore.

Bu mam Elfyn yn brysur yn glanhau’r tŷ. Ond doedd hi ddim yn gallu mynd i fyny’r grisiau. Roedd rhaid iddi fynd trwy ffenestri i mewn i’r llofftydd.

Erbyn amser cinio roedd y ddraig wedi llenwi’r tŷ. Roedd ei phen allan trwy’r drws ffrynt a’i chynffon allan trwy’r drws cefn. Roedd yna ryw ran o gorff y ddraig ymhob stafell yn y tŷ.

Erbyn amser te roedd y ddraig yn llwglyd iawn. Daeth y pobydd heibio. Aeth y ddraig i lawr y ffordd ar ôl y pobydd. Aeth a’r tŷ gyda hi, yn union fel cragen ar gefn malwen.

Pan ddaeth tad Elfyn adref o’i waith roedd y tŷ wedi diflannu. Dywedodd un o’r cymdogion wrtho. “Mae’ch tŷ wedi mynd i lawr y ffordd i gyfeiriad yr eglwys.” Diolchodd tad Elfyn am y wybodaeth ac aeth ar ei union i lawr y ffordd. Craffodd yn ofalus ar bob tŷ. Gwelodd un oedd yn debyg i’w dŷ ef. Pwy welai yn y ffenestr ond ei wraig ac Elfyn yn codi llaw.

Dringodd y tad dros ben y ddraig ac i mewn trwy ffenestr y llofft.
“Beth ddigwyddodd?” gofynnodd mewn braw.
“Y ddraig....” meddai Elfyn. Ond cyn iddo orffen ei frawddeg meddai’i fam.
“Ond does yna ddim ffasiwn beth yn bod â draig.”
“Oes mae yna ddraig,” meddai Elfyn. “Draig fawr, fawr.”
Rhoddodd Elfyn ei law ar ben y ddraig i anwesu’r ddraig. Ysgydwodd y ddraig ei chynffon yn hapus. Dechreuodd y ddraig fynd yn llai ac yn llai. Ymhen dim roedd yn fach, fach yr un maint ag oedd hi pan welodd Elfyn hi ar waelod ei wely.
“Dydw i ddim yn malio am ddreigiau y maint yna,” meddai’r fam. “Pam wnaeth hi dyfu mor fawr?”
“Dydw i ddim yn gwybod. Efallai ei bod hi eisiau i bobl sylwi arni.”
“Na,” meddai’r tad, “efallai ei bod hi eisiau sylw.”

O Dduw, weithiau mi fydda i’n ddrwg, ac mi fydda i’n gwneud pethau drwg, dim ond i gael sylw. Wnei di fy helpu? Amen.

- Pam oedd y ddraig eisiau tyfu mor fawr?
- Ydych chi wedi ymddwyn yn ddrwg pan nad oedd pobl yn cymryd sylw ohonoch?